COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Lun, Tachwedd 12fed, 2018 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), O. Hefin Roberts (Is-gadeirydd), G. Ian Evans, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris

YMDDIHEURIADAU

Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, Erfyl W. Roberts, William B. Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Mr. Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gofal Cychwynnol (Gorllewin), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a Ms. Sarah Roberts, Fferyllydd Cymunedol.

Ymddiheurodd Mr. Thomas y bu cyhyd cyn mynychu cyfarfod – fe'i gwahoddwyd dros flwyddyn yn ôl yn wreiddiol. Cafwyd trafodaeth am gais Meddygon Rhydbach i gau'r Feddygfa dair blynedd yn ôl ond, gwrthododd y Bwrdd Iechyd hwy rhag gwneud hynny – cynhaliwyd gwasanaeth dri bore'r wythnos wedyn cyn cyflwyno'r cais terfynol y llynedd. Mynegwyd siomedigaeth yn y ffaith y penderfynodd y Bwrdd Iechyd ei chau cyn cael cyflwyno'r ddeiseb ac ati – atebwyd nad oes cyfnod ymgynghori statudol i geisiadau o'r fath. Deallwyd mai methiant oedd y trefniant ag O Ddrws i Ddrws – ychydig iawn a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn ystod y cyfnod peilot tri mis.

Trafodwyd – a chwynwyd am – y gwasanaeth a geir o Fotwnnog. Atebwyd y dylid mynd trwy'r drefn gwyno swyddogol os oedd gan unrhyw un gŵyn benodol.

Mynegwyd pryder am ddyfodol Fferyllfa Aber-soch, yn arbennig o ran teithio i Lanbedrog i'r rhai sydd heb gar a deallwyd y symudodd sawl un yno eisoes. Hefyd, ceisia staff y Feddygfa, yn gyffredinol, annog cleifion yr ardal gasglu eu presgripsiwn i Fferyllfa Llanbedrog yn hytrach naf un Aber-soch. Ychwanegwyd, na sylweddola'r 'byd tu allan' am y cynnydd aruthrol sydd ym mhoblogaeth yr ardal yn ystod y tymor gwyliau.

Darllenwyd ateb cwmni Rowlands i'r pryder am ddyfodol y Fferyllfa a noda y sylweddolir bod trafferthion yno oherwydd nad oedd fferyllydd ar gael. Ychwanegir y gweithir i geisio datrys y problemau ac adfer y lefelau gwasanaeth cyn gynted â phosibl. Derbyniwyd ymateb i'r pryder oddi wrth Ddirprwy Brif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru ac yr ategwyd hynny gan y Bwrdd Iechyd ar ôl siarad â Rowlands hefyd.

Eglurodd Sarah Roberts, Fferyllydd Cymunedol wedi'i lleoli ym Meddygfa Treflan, Pwllheli, y sefyllfa ar hyn o bryd. Soniodd am yr hyn sydd am ddigwydd yn y dyfodol agos o ran datblygu rhaglenni cychwynnol a chael mwy o wasanaethau i godi'r safonau hefyd. Dosbarthodd gerdyn, 'Dewis Fferyllfa' i bawb sy'n nodi beth sydd ar gael. Derbynnir bod trafferthion recriwtio fferyllwyr – dywedodd bod dau o'r pen yma'n dilyn cwrs fferylliaeth ar hyn o bryd – sy'n gŵyn cyffredinol ym myd iechyd.

Diolchwyd i'r ddau am roi o'u hamser i ddod atom.